Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Cyflwyno deddfwriaeth i wahardd teclynnau hyfforddi electronig** |
| **Dyddiad:** | **20 Hydref 2009** |
| **Gan:** | **Elin Jones, y Gweinidog dros Dreftadaeth** |

Ar 25 Mehefin 2008, cyhoeddais fy mwriad i gyflwyno deddfwriaeth, yn sgil cynnal ymgynghoriad, i wahardd defnyddio teclynnau hyfforddi electronig ar gyfer cŵn yng Nghymru. Cafodd yr ymgynghoriad ar y ddeddfwriaeth ddrafft ei gynnal rhwng 4 Mawrth a 27 Mai eleni.

Heddiw rwyf wedi rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd y drafft ymgynghori yn darparu ar gyfer eithriadau i'r gwaharddiad o dan rai amgylchiadau, fel pan fydd coler yn cael ei osod ar anifail gan filfeddyg neu yn unol â chyfarwyddyd ganddo. Roedd hefyd yn caniatáu i ffensys electronig anweladwy gael eu gosod dros dro. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus a chyda'r bwriad o sicrhau bod y rheolau'n gwbl eglur at ddibenion gorfodi, rwyf o'r farn y dylid diwygio'r ddeddfwriaeth arfaethedig trwy ddileu'r eithriadau i'r gwaharddiad ar y coleri hyn a'r ffensys electronig anweledig.

Dywedodd llawer o'r ymatebwyr y byddai'n anodd iawn plismona eithriadau o'r fath. Byddai'n anodd canfod am ba hyd y byddai rhywun yn defnyddio'r coler neu wybod a oedd y coler wedi'i osod a'i ddefnyddio yn unol â'r rheolau. Mae'r sylwadau hyn wedi fy narbwyllo ac rwyf felly wedi penderfynu dileu'r eithriadau o'r ddeddfwriaeth ddrafft.

Mae'r ffaith ein bod wedi gwneud y rheoliadau'n fwy caeth yn golygu bod yn rhaid cysylltu â'r Comisiwn Ewropeaidd eto i'w hysbysu am ein cynigion o dan Gyfarwyddeb Safonau Technegol (EC 98/34). Ar ôl i'r Comisiwn Ewropeaidd gael y cynigion, mae'r broses hysbysu honno'n cymryd tri mis. Os bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn ymateb yn ffafriol yn ôl y disgwyl, fy mwriad yw gwneud y ddeddfwriaeth a'i llywio trwy'r broses gadarnhau.